I Weinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler adroddiad blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot ar gyfer y flwyddyn 2021-2022.

| | |
|---|---|
| Y camau gweithredu a gymerwyd i hyrwyddo teithio llesol | **Adnewyddu mapio teithio llesol CNPT - i gydymffurfio â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**<br>Cyflwynwyd MRhTLl CNPT i Lywodraeth Cymru ar 31 Rhagfyr 2021 yn dilyn tri ymgynghoriad. Cymeradwywyd MRhTLl y cyngor ym mis Awst 2022.<br><br>Er mwyn darparu rhagor o wybodaeth gefndirol i'r MRhTLl diwygiedig, mae'r cyngor wedi cynnal 4 archwiliad beicio, 92 archwiliad cerdded a 204 o archwiliadau teithio llesol a rennir yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r llwybrau hyn yn cwmpasu holl lwybrau tymor byr y dyfodol ar y mapiau newydd.<br><br>**Hyrwyddo Cynlluniau a Monitro a Gwerthuso**<br>Mae ffotograffydd wedi cymryd ffotograffau hyrwyddo ar hyd lleoliadau allweddol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Cynhaliwyd gwaith monitro a gwerthuso 47 o lwybrau presennol ac yn y dyfodol i gasglu data am gerddwyr, beiciau a thraffig.<br><br>Cyflogodd y cyngor ymgynghorydd i ddylunio gwedudalennau teithio llesol newydd ynghyd â brandio, pennawd ac asedau cyfryngau cymdeithasol. Disgwylir i'r gwedudalennau newydd hyn gael eu lansio pan fydd MRhTLl CNPT ar gael i'w weld yn gyhoeddus.<br><br>**Cyswllt Mewnol**<br>Cydweithrediad parhaus â chydweithwyr |

| | |
|---|---|
| | o adrannau Cynllunio, Priffyrdd, Diogelwch Ffyrdd, Gofal Stryd (cynnal a chadw llwybrau) ac Addysg i annog gwaith hyrwyddo a darparu ar gyfer teithio llesol fel rhan o ddatblygiadau newydd.<br><br>**Tîm Diogelwch Ffyrdd**<br>Cynhaliodd y Tîm Diogelwch Ffyrdd nifer o weithgareddau i hyrwyddo Teithio Llesol gan gynnwys:<br><br>- CycleCraft (Hyfforddiant beicio ar y ffyrdd): **16 ysgol, 508 o ddisgyblion**<br>- Addysg Dosbarth Cynradd: **31 ysgol, 5822 o ddisgyblion**<br>- Gwasanaethau (Cynradd): **0**<br>- Ymwybyddiaeth Feicio (Blwyddyn 3 - Blwyddyn 6): **16 ysgol, 972 o ddisgyblion**<br>- Hyfforddiant Sgwteri (pob oedran): **16 ysgol, 750 o ddisgyblion**<br>- Hyfforddiant Beiciau Cydbwysedd (Meithrin a Derbyn): **0**<br>- Beicio Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 1 a 2): **1 Clwb Afancod, 35 o blant**<br>- Teithiau Cerdded Diogelwch Ffyrdd (pob oedran): **2 ysgol, 87 o blant**<br>- Kerbcraft (Hyfforddiant i Blant sy'n Cerdded - Blwyddyn 2): **0**<br>- Cwrs Hyfforddi Byr i Gerddwyr (6 wythnos o hyfforddiant): **67 ysgol, 2,143 o ddisgyblion** |

| | |
|---|---|
| | - The Big Pedal (y mae CNPT yn cefnogi Sustrans): **6 ysgol, 2717 o deithiau**<br><br>- Cwis Blynyddol: Mae Diogelwch Ffyrdd yn cynnal cwis blynyddol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6, sy'n cael ei gynnig i bob ysgol gynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot: **0**<br><br>- Criw Croch: **51 ysgol, 1,704 o ddisgyblion**<br><br>[Sylwer: mae ffigurau ysgolion yn seiliedig ar y flwyddyn academaidd Medi 2021 - Gorffennaf 2022.] |
| Y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig | **Blaen-gwrach i Glyn-nedd** - Mae pentrefi Blaen-gwrach a Chwmgwrach yn cael eu gwahanu oddi wrth dref Glyn-nedd gan yr A465. Mae'r llwybr hwn yn hanfodol i'r cymunedau hyn gan mai'r llwybr yw'r unig fynediad diogel i gerddwyr rhwng y pentrefi lle mae gwasanaethau allweddol fel ysgolion, manwerthu, cyfleusterau hamdden a chanolfannau meddygol wedi'u lleoli; mae hon yn gysylltiad hanfodol i atal llawer o drigolion y cymunedau hyn rhag cael eu gwahanu.<br><br>Roedd y llwybr gwreiddiol yn llwybr i gerddwyr a oedd yn darparu cyswllt o gymunedau Cwmgwrach a Blaengwrach i dref Glyn-nedd trwy ganiatáu taith ddiogel trwy lwybr tanffordd o dan yr A465 a thros bont droed dros afon Nedd. Mae CNPT wedi gosod pont droed newydd yn lle'r un flaenorol dros afon Nedd yn dilyn difrod anhrwsiadwy iddi yn ystod storm Dennis. Adeiladwyd y bont droed newydd gyda mwy o led fel y gellid adeiladu llwybr defnydd a rennir. |

| | |
|---|---|
| | Roedd gweddill y llwybr wedi methu'r asesiad teithio llesol.<br><br>Amcanion y cynllun oedd:<br><br>• Lledu'r llwybrau troed presennol i ddarparu llwybr defnydd a rennir.<br>• Gwella hygyrchedd i bob defnyddiwr.<br>• Gwella'r cysylltiad â'r Ganolfan Iechyd sydd newydd ei hadeiladu ac NCN 46.<br><br>**Tonna** - Gosodwyd croesfan lleihau cyflymder ar NCN 46, gan groesi'r B4434.<br><br>**Croesfannau gwell** - gwelliannau i groesfannau gan gynnwys ail-alinio cyffyrdd a gosod palmant botymog a chyrbau wedi'u gostwng mewn 11 lleoliad yn CNPT.<br><br>***Cyn y gwaith*** – Roedd hyn yn cynnwys dichonoldeb, dylunio, trafodaethau tir ac ymgynghori/ymgysylltu ar wahanol lwybrau yn y sir. |
| Costau a gafwyd ar gyfer llwybrau teithio llesol a chyfleusterau newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau perthnasol yn y flwyddyn lawn flaenorol. | Dyfarnwyd £721,000 o gyllid craidd i Gyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer gwaith dylunio pellach, mân welliannau, trafodaethau tir a hyrwyddo cynlluniau.<br><br>Yn ogystal, dyfarnwyd £50,000 i edrych ar astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer llwybr i orsaf drenau Baglan.<br><br>Ar ben hynny, derbyniodd y cyngor £45,000 ar gyfer capasiti a hyrwyddo. |

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth ganlynol yn darparu trosolwg o'r isadeiledd a gyflwynwyd yn y flwyddyn flaenorol:

| | |
|---|---|
| Gwariant awgrymedig ar gyfer llwybrau a chyfleusterau theithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio | - £0 |

| | |
|---|---|
| llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig, a ariannwyd neu a ariannwyd yn rhannol gan drydydd partïon. | |
| Hyd y llwybrau newydd:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Defnydd a Rennir | - 0m |
| Hyd y llwybrau a wellwyd:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Defnydd a Rennir | **Llwybr defnydd a rennir o Flaengwrach i dref Glyn-nedd** - 0.5KM |
| Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell | - Tynnu mesurau rheoli mynediad (cam 3) = dileu 18 o rwystrau/gatiau nad ydynt yn cydymffurfio<br>- Gosod man storio beiciau mewn 2 leoliad<br>- Gosod 8 sedd ochr yn ochr â llwybrau beicio yn y Fwrdeistref Sirol.<br>- Uwchraddiodd y cyngor 10 o declynnau cyfrif beiciau sefydlog i fwydo i brosesau monitro a gwerthuso yn y dyfodol. |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

| |
|---|
| |

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac y bydd ar gael fel copi caled ar gais, yn unol ag arweiniad statudol y Ddeddf Teithio Llesol (rhifyn 2021).

Enw'r Prif Weithredwr: Karen Jones

Dyddiad y'i cyflwynwyd i Weinidogion Cymru: